



Ysgol Pentreuchaf

6. Polisi Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Nod

Nod Addysg Bersonol a Chymdeithasol yw galluogi plant i wybod a deall beth sydd ei angen i fyw bywyd iach, i fod yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch, medru ffurfio perthynas dda gydag eraill, dangos parch, bod yn aelodau annibynnol a chyfrifol o gymuned yr ysgol, yn aelodau positif a gweithredol o gymuned ddemocrataidd, datblygu hunan-hyder a hunan-barch a gwneud dewisiadau perthnasol ynglŷn â materion personol a chymdeithasol.

Er nad yw ABaCh yn ei gyfanrwydd yn un o feysydd gorfodol y Cwricwlwm Cenedlaethol (er bod elfennau ohono'n rhan statudol o'r rhaglenni astudio), credwn yn gryf y dylwn ei gynnwys ochr yn ochr â'r pynciau eraill. Ceisiwn sicrhau bod elfennau addas o ABaCh yn cael eu hymgorffori mewn rhaglen strwythuredig a chydlynus. Mae **polisi**'r hwn yn seiliedig ar 'Fframwaith **Addysg Bersonol a Chymdeithasol**' ACCAC.

Amcanion cyffredinol

1. Paratoi dysgwyr i fod yn effeithiol yn **bersonol** ac yn gymdeithasol drwy ddarparu profiadau dysgu lle gall disgyblion ddatblygu:
 - medrau;
 - ymchwilio i agweddau, gwerthoedd a nodweddion personol;
 - gaffael, gwerthuso a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth briodol.
2. Datblygu hunanbarch a chyfrifoldeb personol y disgyblion.
3. Paratoi'r disgyblion ar gyfer sialensiau, dewisiadau, cyfrifoldebau a dysgu gydol oes.
4. Galluogi'r disgyblion i gyfrannu'n adeiladol fel dinasyddion da yn eu cymunedau a datblygu persbectif byd-eang.
5. Cynorthwyo disgyblion i fyw bywydau iach a boddhaus.
6. Meithrin ac annog agweddau cadarnhaol tuag at yr amgylchedd - yn lleol ac yn fyd-eang

Amcanion penodol

1. Hyrwyddo yn y disgyblion agweddau a'r gwerthoedd personol canlynol:
 - hunan-barch;
 - parch at eraill ac ystyriaeth o'u hanghenion;
 - cyfleoedd cyfartal a derbyn pobl eraill beth bynnag fo'u hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd;
 - consŷrn dros degwch a chyfiawnder;
 - annibyniaeth meddwl;
 - cyfrifoldeb;
 - parodrwydd i gydweithio;
 - sensitifrwydd at yr amgylchedd;
 - ymchwil am y gwir
2. Datblygu medrau personol a **chymdeithasol** y disgyblion ac yn arbennig y medrau:
 - cyfathrebu, gan gynnwys y gallu i wrando;
 - rhyngbersonol, ac yn enwedig y gallu i gydweithio;
 - mewn-**bersonol**, ac yn enwedig y gallu i ymdawelu a myfyrio;
 - datrys problemau a gwneud penderfyniadau;
 - astudio, ac yn enwedig y gallu i osod targedau personol;
 - ymarferol, er enghraifft, cymorth cyntaf.
3. Datblygu cnewyllyn o wybodaeth sy'n angenrheidiol i'r disgyblion ei ddeall a'i

werthuso er mwyn teimlo'n gymwys i fynd i'r afael â materion bywyd. Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth yn cynnwys agwedd:

- gymdeithasol;
- gymunedol;
- gorfforol;
- rhywiol;
- emosiynol;
- ysbrydol;
- moesol;
- galwedigaethol;
- dysgu;
- amgylcheddol.

4. Sicrhau bod ABCh y disgyblion yn digwydd mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau, ac yn cynnwys ystod o brofiadau. Gallai'r cyd-destunau a'r profiadau gan gynnwys:

- amser cylch;
- addoli ar y cyd;
- ymweliad ysgol;
- gweithio mewn grŵp bychan; a.y.b.

Medrau allweddol i'r disgyblion eu meithrin

1. Gwrando'n astud, gofyn cwestiynau ac ymateb i bobl eraill.
2. Mynegi eu barn a'u syniadau a chymryd rhan mewn trafodaeth.
3. Ysgrifennu am eu teimladau a'u hemosiynau.
4. Trwy ddarllen, uniaethu eu teimladau neu eu sefyllfa hwy eu hunain gyda phlant a phobl eraill.
5. Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu gwell dealltwriaeth ohonynt hunain, gan gynnwys:
 - cyfeirlyfrau;
 - cerddoriaeth;
 - papurau newydd;
 - rhaglenni teledu a fideo.

Mynediad a chyfleoedd cyfartal

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd ffurfiol yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol, yn adlewyrchu cydraddoldeb pob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i raglen astudio'r maes. Manteisir ar bob cyfle i ddarparu'n wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn disgyblion i'w llawn botensial.

Canllawiau

1. Cydlynnydd Gwyddoniaeth fydd a chyfrifoldeb am y maes yn yr ysgol.
2. Bydd pob athrawes yn cynllunio gweithgareddau penodol ar gyfer datblygu ABaCh.
3. Bydd disgyblion B2 i B6 yn ethol cynrychiolwyr ar gyfer y Cyngor Ysgol.
4. Nodir yr agweddau canlynol yn y Fframwaith ABaCh –
Ystod;
 - i) Dinasyddiaeth weithgar
 - ii) Iechyd a lles emosiynol
 - iii) Datblygiad meosol ac ysbrydol
 - iv) Paratoi ar gyfer Dysgu Gydol Oes
 - v) Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eangSgiliau:
 - i) Datblygu Meddwl
 - ii) Datblygu Cyfathrebu

- iii) Datblygu TGCh
- iv) Datblygu Rhif
- v) Gweithio gydag eraill
- vi) Gwella'ch dysgu eich hun

5. Dylai athrawon sicrhau

- i) Bod disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod rhywun yn gofalu amdanynt.
- ii) Cymeradwyo cyfraniad unigolion e.e. drwy 'Amser Cylch'.
- iii) Defnyddio iaith adeiladol a pharchus yn yr ystafell ddosbarth gan beidio a gwawdio, bod yn sarcastig na bychanu.
- iv) Meithrin amgylchedd cydweithredol a chefnogol, llawn ymddiriedaeth yn yr ystafell ddosbarth gan sicrhau bod y disgyblion yn deall bod cyfrinachedd dosbarth a.y.y.b.
- v) Sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o faterion diogelwch personol gan gynnwys diogelwch y Wê.
- vi) Darparu cymaint o gyfleoedd ag sy'n bosibl i ddisgyblion lwyddo.
- vii) Eu hannog i fod yn gyfrifol am eu dysgu a'u cynnydd.

Cyfle Cyfartal

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd ffurfiol yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol, yn adlewyrchu cydraddoldeb pob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i raglen astudio'r maes. Manteisir ar bob cyfle i ddarparu'n wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn disgyblion i'w llawn botensial.

Casgliad

Mae datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn cael ei feithrin trwy gyfleoedd amrywiol i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r ysgol, a chan gyfleoedd i ddangos arweiniad a blaengaredd ynghyd ag ysgwyddo cyfrifoldeb.

Adolygir: Ionawr 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____